

Cofnodion



Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2020

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Cleverly, P Cockeram, M Cornelious, D Davies, M Al-Nuaimi, C Evans, M Evans, C Ferris, G Giles, J Guy, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, A Morris, Councillor J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, K Whitehead, D Williams, G Berry, J Clarke, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, S Marshall and H Townsend

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr K Critchley, D Fouweather, C Jenkins, D Wilcox, T Holyoake, L Lacey, W Routley and J Watkins

1. Rhagofynion

i. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Swyddog Monitro am absenoldeb (wedi eu nodi uchod).

ii. I dderbyn datganiadau o fuddiant.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ar y cam hwn.

iii. I dderbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer

Llongyfarchwyd Maer Casnewydd gan y Dirprwy Faer ar ei briodas ag Alison Robbins yn ddiweddar, ac felly ei absenoldeb yn y Cyngor. Rhoddodd y Cyngor rownd o gymeradwyaeth.

Cyhoeddodd y Dirprwy Faer y newyddion trist am farwolaeth Graham Dally, y Cynfaer a'r Cynghorydd, yn ddiweddar. Dywedodd yr Arweinydd ychydig o eiriau ar ran y Cyngor a chafwyd moment o dawelwch fel arwydd o barch.

Cyflwynodd y Dirprwy Faer y Cynghorydd M Spencer gyda'r Wobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwr Amddiffyn Cyfamod y Lluoedd Arfog, a ddyfarnwyd i'r Cyngor gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Derbyniodd y Cynghorydd Spencer y wobr ar ran y Cyngor. Canmolodd y Cynghorydd Spencer swyddogion am eu gwaith caled gan gynnwys Lisa Rawlings, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, Nicola Dance a Hannah Ashley

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwobr gan Lywodraeth Cymru, y fenter Bee Friendly, a fyddai'n cael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Arweinydd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar ddyddiad i'w gytuno gan Lywodraeth Cymru.

2. Cofnodion

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at dudalen 11 o dan gwestiynau'r Arweinydd, sef cynnydd yn y Dreth Gyngor. Dylai'r paragraff cyntaf ddarllen na ddylai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn fwy na chyfradd chwyddiant.

Gofynnodd yr Arweinydd am gywiriad ar yr un dudalen o dan y pumed paragraff lle dylai'r cyfenw fod wedi darllen David Pipe gyda p ac nid Pike.

Penderfynwyd: Bod cofnodion y cyfarfod ar 26 Tachwedd 2019 yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu, yn amodol ar y cywiriadau uchod.

3. Penodiadau

Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodir yn yr adroddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodir yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau canlynol a nodwyd isod.

Penderfynwyd: Bod y penodiadau canlynol yn cael eu cytuno.

Penodiadau Mewnol

Penodiadau i Sefydliadau Allanol

Sefydliad	Nifer o Swyddi Gwag / Olynyddion	Enwebiadau a gafwyd
Bwrdd Cydbartneriaeth Norwyeg	1	Y Cynghorydd Miqdad Al-Nuaimi
Gwastadeddau Byw	1	Y Cynghorydd D Davies i gymryd lle'r Arweinydd
Grŵp Ilywio Bwrdd Camlas Môn a Brycheiniog	1	Y Cynghorydd D Davies i gymryd lle'r Arweinydd
Ardal Gwella Busnes (AGB)	1	Y Cynghorydd Harvey i gymryd lle'r Arweinydd
Cadeirydd Trafnidiaeth Casnewydd	1	Y Cynghorydd Harvey i gymryd lle'r Arweinydd
Dyffryn Wysg, Grŵp Gweithredu Lleol CDRh	1	Y Cynghorydd D Davies i gymryd lle'r Arweinydd

Penodiadau Cyrrff Llywodraethu

Corff Llywodraethu	Nifer o Swyddi Gwag / Ail-benodiadau	Enwebiadau a gafwyd
Ysgol Gynradd Pillgwenlli	1	Ailbenodi Edward Watts yn llywodraethwr yr ALI
Ysgol Gynradd Pentre-poeth	2	Ailbenodi Paul Gregory a Darren Walsh, yn llywodraethwyr yr ALI
Ysgol Gynradd Glan Wysg	1	Hannah Hopkins yn cymryd lle Kathryn Dryer fel llywodraethwr yr ALI
Ysgol Gynradd y Santes Fair	1	Ailbenodi'r Cynghorydd Charles Ferris yn llywodraethwr yr ALI
Ysgol Gynradd Millbrook	1	Karyn Kean yn cymryd lle Sarah Lewis fel llywodraethwr yr ALI
Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw	1	Sam Dabb wedi'i benodi i swydd wag bresennol llywodraethwr yr ALI
Ysgol Gynradd Mynwy	1	Ailbenodi'r Cynghorydd Jan Cleverly fel llywodraethwr yr ALI

Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd J Clarke mewn perthynas â'i enwebiad ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad: Partneriaethau.

Ychwanegodd y Cynghorydd D Harvey y canlynol:

Y Cynghorydd J Clark - Cyd-bwyllgor Craffu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
Y Cynghorydd L Lacey - gwaith craffu ar y GCA
Cynghorwyr D Mayer a M Rahman - Casnewydd Fyw
Arweinydd a Dirprwy Arweinydd - Cydgyngor Cymru

Yn ogystal â'r penodiadau uchod, hysbysodd y Cynghorydd Harvey y Cyngor o'r angen i gytuno ar oddefeb ar gyfer absenoldeb Cynghorydd, yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth 1972:

Penderfynwyd:

Cymeradwyo absenoldeb o chwe mis ar gyfer y Cynghorydd C Jenkins.

4. Materion yr Heddlu

Cyfeiriodd yr Uwch-arolygydd M Richards at ystadegau troseddau ar gyfer Casnewydd yn ddiweddar, oedd wedi gostwng yn sylweddol, roedd Casnewydd wedi cyrraedd 1600 trosedd y mis ar gyfartaledd. Yn ystod mis Hydref/Tachwedd y llynedd, fe wnaeth yr heddlu gryfhau eu gwaith gorfodi. Roedd y canlyniadau'n syfrdanol, o 1650 o droseddau ym mis Tachwedd i 1480 ym mis Rhagfyr 2019. Gostyngodd y ffigurau gyda 300 o droseddau ym mis Ionawr 2020 o 1300, o gymharu â'r llynedd, pan nodwyd 1600 o droseddau. Roedd y stori'n debyg ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol; ym mis Medi/Tachwedd 2019 nodwyd 350 o ddigwyddiadau a gostyngodd y ffigur i tua 220 ym mis Rhagfyr 2019. Roedd y canlyniadau'n galonogol.

Cynhaliwyd arolwg Eich Llais yn ddiweddar er mwyn i gymunedau hysbysu'r heddlu o'r hyn yr hoffent i'r heddlu fynd i'r afael ag ef. Ar ôl iddo gau'n ddiweddar byddai'r heddlu yn cyhoeddi eu blaenoriaethau diwygiedig o'i ganlyniad.

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Mike Richards ddiweddariad byr ar weithgarwch ar draws y tri sector plismona yng Nghasnewydd.

- Tîm Gorllewin Casnewydd - mae'r Rhingyll Phil Welty wedi cymryd yr awenau gan y Rhingyll R Giles. Cynnydd mewn swyddfeydd cymorth cymunedol yn yr ardal honno. Y blaenoriaethau yn yr ardal oedd camddefnyddio cyffuriau yn Frances Drive, Maesglas a Betws. Ers mis Tachwedd, roedd pedwar gwarant cyffuriau wedi'u gweithredu yn ardaloedd y Pilgwenlli a Betws. Roedd y broses o adrodd am y digwyddiadau hyn gan aelodau o'r cyhoedd a chynghorwyr wedi galluogi'r heddlu i ymgymryd â'r gweithgarwch gorfodi. Hefyd yn ardal Betws, cafwyd wyth atafaeliad o feiciau oddi ar y ffordd. O ganlyniad, byddai Gweithrediad Harley yn parhau tan dymor y gwanwyn 2020. Cynhaliwyd 'teithiau o amgylch y gymuned' sylweddol yn amlasiantaethol yn ardaloedd Maesglas a Pilgwenlli, dan arweiniad y Cyngor yn rhan o Strategaeth Diogelu Cyddestunol. Roedd Deb Evans, a oedd yn gweithio i Wasanaethau Plant, yn rhan o'r project hwn. Datblygwyd Cynllun gweithredu ar gyfer y meysydd hynny.
- Tîm Dwyrain Casnewydd - mynd i'r afael â'r ceir yn gyrru ar nos Sul o gwmpas Tesco ac ardal fanwerthu Spytty, cysylltwyd â J Morden, AS a gyda chymorth y Cynghorydd Kellaway, roedd dull cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r mater hwn; Roedd Bwrdd Strategol Gwent Ddiogelach yn cefnogi hyn ac roedd yr arolygydd Cawley yn arwain grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i waharddebau sifil gyda chymorth partneriaid. Roedd 300 o docynnau gorfodi wedi'u dosbarthu ac roedd Tesco yn defnyddio camerâu adnabod platiau awtomatig. Roedd ymgyrch SNAP hefyd ar waith ar wefan Gan Bwyll, gallai aelodau o'r cyhoedd recordio fideo o unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol ar eu ffonau symudol a'u lanlwytho i'r wefan hon yn ddiennw. Bu cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Langstone/Llanmartin, roedd yr heddlu'n ymgysylltu ag ysgolion fel y crybwyllwyd yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyngor ac roeddent yn gobeithio gwneud mwy o ymweliadau. Bu gostyngiad mewn ymddygiad niwsans ar hyd Durham Road. Wrthi'n datrys y broblem o osod tân yn Ringland a gweithio gydag ysgolion ar strategaethau ataliol.
- Roedd Canol y Ddinas wedi ennill lle blaenllaw yn economi'r nos yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, gan gynnwys gyda ffyrdd ar gau ar ôl iddi dywyllu. Roedd yr heddlu'n parhau i orfodi'r GDMC, o ran cardota ymosodol ger peiriannau arian parod, ac roedd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Roedd yr Uwch-arolygydd Richards yn aros am lyfrau hysbysiadau cosb benodedig gan y Cyngor, a gofynnodd i'r Prif Weithredwr dros dro a fyddai modd cyfleu hyn i'r gwasanaeth perthnasol.

Cwestiynau gan Gynghorwyr:

- Gofynnodd y Cynghorydd Jeavons a fyddai'n bosib i chi drosglwyddo ei ddiolchiadau i'r tîm am y gwaith sy'n cael ei wneud yn Spytty a Tesco. Cytunodd yr Uwch-arolygydd M Richards, roedd yn dasg anodd a diolchodd i bawb a oedd yn rhan ohoni ac yn gobeithio y byddai'r waharddeb sifil yn cael ei datrys.
- Gwelodd y Cynghorydd Rahman, cydweithiwr yn y ward, gynnydd sydyn yn y defnydd o gyffuriau yn Rosslyn Close, ar hyd y datblygiad tai newydd a Rodney Road. Daethpwyd o hyd i daclau cyffuriau ger yr ardal barcio breswyl, a oedd yn dir preifat. Roedd y cynghorydd wedi cysylltu â'r cwmni rheoli, REMUS ynghylch y broblem. Felly, allai heddlu batrolio'r ardaloedd hyn? Ardal arall a oedd â phroblem barhaus oedd dan Bont Sant Siôr, ar gyffordd Morris Street a Corporation Road. Cafodd trigolion eu haflonyddu gan bobl ifanc ger y siop betio. Gofynnodd y Cynghorydd Rahman am eglurhad ynglŷn â phreswylwyr â manau parcio i bobl anabl a oedd yn cael problemau gyda phobl yn parcio'n anghyfreithlon o amgylch ward Fictoria. Gan nad oedd unrhyw arwyddion yn mynd gyda'r manau, dywedodd yr heddlu wrth y preswylwyr na ellid rhoi dirwyon. Dywedodd yr Uwch-arolygydd Richards y gellid dosbarthu tocynnau ac y byddent yn holi'r tîm lleol ac yn darparu canlyniad.

- Dywedodd y Cynghorydd C Evans wrth yr Uwch-arolygydd Richard am e-bost a dderbyniwyd gan breswlydd a oedd wedi rhoi'r gorau i adrodd ar droseddau, gan nad oeddent yn teimlo bod unrhyw beth yn cael ei wneud. Cyfeiriodd y preswlydd at yr ymddygiad gwrthgymdeithasol, y tu allan i neuadd yr Eglwys yn Wern Terrace, Tŷ-Du, fel arfer o 5pm tan yn hwyr. Roedd yr Uwch-arolygydd Richards am roi sicrwydd i'r cynghorydd nad yw'r heddlu wedi rhoi'r gorau i ofalu ac y byddai'n cymryd manylion y preswlydd i gyfarfod a thrafod y materion.
- Roedd y Cynghorydd M Evans yn falch o weld yr heddlu yn bresennol yng nghanol y ddinas, er y pwysleisiwyd bod cardota ymosodol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, roedd hyn yn digwydd yn rheolaidd ger gorsafoedd tocynnau maes parcio a pheiriannau arian. Dywedodd yr Uwch-arolygydd Richards wrth y Cynghorydd M Evans ei fod yn bwriadu diwygio'r gorchymyn gwarchod mannau cyhoeddus i ymestyn y perimedr 10 metr a byddai'n dechrau deialog â phartneriaid i archwilio hyn.
- Gofynnodd y Cynghorydd C Townsend pa bŵer penderfynu roedd yr heddlu'n ei gymryd er mwyn gwasgaru'r rhai oedd yn cysgu ar y stryd, credid bod 10 swyddog wedi dymchwel pebyll a symud pobl agored i niwed. Dywedodd y Cynghorydd Townsend mai dim ond tri Heddwes ynghyd â thri Swyddog Cymorth Cymunedol oedd yn gwneud y gwaith hwnnw, ac i'w cefnogi roedd y Cyngor yn cymryd rhan yn y gweithrediadau glanhau. Gwent hefyd oedd un o'r ychydig awdurdodau ym Mhrydain nad oedd wedi defnyddio'r Ddeddf Crwydradaeth. Nid yw'r heddlu am droseddoli pobl agored i niwed yn y sefyllfaoedd hyn.
- Cododd y Cynghorydd Truman bryder difrifol ynghylch y cerbydau sy'n goryrru ar hyd Chepstow Road, roedd nifer o ddamweiniau wedi digwydd, gan gynnwys un mor ddiweddar â dau ddiwrnod ynghynt. Byddai'r Uwch-arolygydd Richards yn edrych i mewn i hyn ac yn rhoi diweddariad cyn diwedd yr wythnos i'r cynghorydd Truman.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd A Morris at y gostyngiad yn y ffigurau troseddu a gofynnwyd a oedd y cynnydd o ganlyniad i batrolau ychwanegol neu blismona craffach, ac a ellir cyflogi mwy o swyddogion i helpu gyda'r gostyngiad mewn troseddu. Dywedodd yr Uwch-arolygydd Richards fod y gostyngiad yn deillio o waith rhagweithiol yn targedu troseddwr cyson. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar y mater. Byddai'n braf cael mwy o swyddogion ond yn realistig, roedd nifer ddigonol o swyddogion o fewn y ddinas.
- Canmolodd y Cynghorydd J Guy yr Heddlu am eu rhaglen Ditectif Damweiniau Traffig. Roedd yn bwysig bod y cyhoedd ehangach yn ymwybodol o'r gwaith aml-dasg a gyflawnir ac nid oedd pobl yn gwybod am y gwaith caled hwn. Diolchodd yr Uwch-arolygydd Richards i'r Cynghorydd Guy am ei eiriau caredig a rhoddodd wahoddiad agored i Aelodau a fyddai'n hoffi treulio amser gyda'r heddlu i weld beth oedd eu dyletswyddau o ddydd i ddydd ar draws y ddinas.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd R Mogford at y sefyllfa gyffuriau a mater o gyflenwad a galw oedd y broblem a gofynnodd a oedd gan yr heddlu syniad o faint o werthwyr cyffuriau oedd yn y ddinas. Dywedodd yr Uwch-arolygydd Richards ei bod yn anodd dweud yn union. Roedd Casnewydd yn ddrwg enwog fel ardal rad i brynu cyffuriau ac roedd pobl yn dod o bell ac agos am y rheswm hwn. Nid oedd yn ymddangos bod y broblem yn waethygu. Roedd syniad o nifer y grwpiau troseddu cyfundrefnol yng Nghasnewydd a dyna ble roedd y gwaith yn cael ei flaenoriaethu. Byddai'r Uwch-arolygydd Richards yn fwy na pharod i eistedd i lawr a siarad am y grwpiau troseddu cyfundrefnol yng Nghasnewydd gyda'r Cynghorydd Mogford.
- Roedd y Cynghorydd Whitcutt yn sylweddoli y byddai'r heddlu yn parhau i roi pwysau ar y broblem gyffuriau ym Maesglas gan ei bod yn bwysig cydnabod nad oedd yn drosedd ar wahân. Gallai camddefnyddio cyffuriau arwain at droseddau eraill a cham-drin domestig. Roedd gan bobl mewn lleoedd fel Maesglas, Pilgwenlli a Betws yr hawl i gael amser

heddychlon yn ogystal â'r rhai oedd yn byw yn Rogerstone. Roedd pobl yn yr ardaloedd hyn yn ddinasyddion sy'n parchu'r gyfraith. Roedd yr Uwch-arolygydd Richards wedi ystyried hyn, fodd bynnag, roedd yn bwysig i breswylwyr roi gwybod am droseddau, gan fod hyn yn bryder gwirioneddol. Gofynnodd yr Uwch-arolygydd Richards yn y diwedd i drigolion barhau i adrodd digwyddiadau a chadw ffydd yn yr heddlu.

5. **Rheolau Sefydlog Contract Diwygiedig**

Rhoddodd yr Arweinydd gyflwyniad manwl o'r adroddiad, a oedd yn cynnig diweddariad i Reolau Sefydlog Contractau'r Cyngor ac a gafodd eu hadolygu yn unol â'r cyfnod adolygu tair blynedd a nodwyd, gan ystyried datblygiadau a blaenoriaethau cenedlaethol/lleol. Cytunwyd ar y cynnig hwn yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Rhagfyr 2019.

Yn benodol, gwnaeth y cynnig argymhellion i newid Proses Porth Caffael y Cyngor, a lywodraethodd sut yr oedd y Cyngor yn caffael nwyddau a gwasanaethau gyda mwy o bwyslais ar ddarparu mwy o gyfleoedd i gefnogi busnesau lleol wrth barhau i gydymffurfio â rheolau caffael cyhoeddus statudol, gan sicrhau bod trefniadau contract yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol o fewn y Cyngor.

Penderfynwyd:

i'r Cyngor ystyried y Rheolau Sefydlog Contract Diwygiedig a'u cymeradwyo'n unfrydol

6. **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y Cyfnod hyd at 30 Medi 2019**

Cyflwynodd yr arweinydd yr adroddiad, gan hysbysu'r cyfarfod bod, yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, y Cyngor wedi parhau i fod yn fuddsoddwr byrdymor o arian parod a benthyciwr ar gyfer rheoli llifau arian parod o ddydd i ddydd. Dangosodd rhagolygon cyfredol y byddai benthycia dros dro yn parhau i fod yn ofynnol ar gyfer ariannu gweithgareddau llif arian arferol o ddydd i ddydd yn y dyfodol. Nid oedd angen unrhyw fenthycia dros dro ychwanegol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, fodd bynnag, gwnaed benthycia hirdymor ar log sero ar gyfer prosiect penodol.

Roedd yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau a gyflawnwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn rhai disgwyliedig ac o fewn terfynau cytunedig y Cyngor.

Penderfynwyd:

i'r Cyngor nodi a chymeradwyo'n unfrydol yr adroddiad ar weithgareddau rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Medi 2019 yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019/20 gytunedig.

7. **Cynllun Lleihau Trethi Cyngor**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan hysbysu'r Cyngor bod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) ar gyfer 2020/21 yn diweddarau'r cynllun a gyflwynwyd gyntaf ar 1 Ebrill 2015.

Nid oedd yn ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ar gynigion y cynllun newydd gan fod y newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddiwygiadau i Reoliadau'r Gofynion Rhagnodedig. Byddai'r disgrisiynau lleol oedd ar gael i'r Cyngor yn aros heb newid. Darparodd yr adroddiad wybodaeth ar y Cynllun arfaethedig ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Penderfynwyd:

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'n unfrydol y Cynllun ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2020/21 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") wrth arfer ei ddisgrisiwn lleol fel y nodir yn yr adroddiad.

8. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2018-2019

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cyngor.

Nid oedd yn arfer i'r Aelod Cabinet gyflwyno hyn, fodd bynnag, ymddeolodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ym mis Tachwedd 2019.

Perfformiad oedolion – perfformiad cryf yn gyffredinol

Mae'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ychydig uwchlaw lle y dylai fod ond mae hwn yn faes gwaith cymhleth ac mae'r ffigur yn cynrychioli mwy o weithgarwch yn yr ysbytai.

Mae mentrau megis In Reach lle mae gweithwyr cymdeithasol yn dechrau gweithio gyda chleifion i gynllunio eu rhyddhau wrth iddynt fod ar y ward o hyd a'r ffaith bod gwasanaethau ailalluogi ar gael yn arwain at amseroedd gweithredu cyflymach a all arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn y gymuned.

Mae ailalluogi yn cael effaith gadarnhaol, gyda 84% o bobl yn cael eu rhyddhau o'r gwasanaeth heb unrhyw anghenion cymorth pellach neu gyda gostyngiad yn eu cynllun gofal.

Er mwyn cefnogi a datblygu'r diwylliant hwn ymhellach, rydym yn symud tuag at fodel derbyn o ail-alluogi sy'n golygu bod hyd yn oed pobl nad ydynt erioed wedi cael pecyn gofal yn derbyn gwasanaeth ail-alluogi wrth gael eu rhyddhau er mwyn sicrhau eu bod mor annibynnol â phosib.

Perfformiad plant – mae ffigurau diwedd blwyddyn yn rhesymol yng nghyd-destun nifer gynyddol o atgyfeiriadau a'u cymhlethdod.

Mae 58% o'r mesurau yn wyrdd – gyda naw mesur wedi dangos gwelliant yn erbyn y cyfnod blaenorol. Mae cymhlethdod cynyddol a galw cynyddol wedi cael effaith sylweddol ar y gallu i fwrw targedau Llywodraeth Cymru

Mae nifer y plant a gynorthwyir i aros gyda'u teulu yn 8% yn is na'r targed ac mae'r trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Barnardo's a staff CDC wedi'u gwella drwy gyflwyno Cynadleddau Grŵp Teulu lle mae teuluoedd yn gweithio ar y cyd gyda gweithwyr proffesiynol mewn ffordd strwythuredig i ddatrys eu problemau.

Dylai nifer y plant sy'n cael eu dychwelyd adref o leoliad gofal fod ar 13%, ac mae ar 8.3%. Mae hyn yn adlewyrchu lefel y cymhlethdod o ran rhai achosion a gellir rhoi sicrwydd bod pob plentyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod y dewis gorau yn cael ei ganfod ar gyfer y plentyn

Mae canran y plant sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn 15.63% yn erbyn targed o 9%. I liniaru hyn, mae'r Fforwm Rhianta Corfforaethol wedi cael ei adfywio ac mae cyfleoedd ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc wedi'u gwella er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau i gynorthwyo plant pan fyddant yn dod i'r maes gofal gyntaf.

Mae lefelau digartrefedd ymysg y rhai sy'n gadael gofal wedi cynyddu i 21% yn erbyn targed o 10%. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol ond mae gwaith penodol yn cael ei wneud yng Nghasnewydd i adolygu'r holl lety 16+. Mae eiddo ychwanegol wedi ei sicrhau ac mae Rheolwr Gwasanaeth a gefnogir gan reolwr tîm yn goruchwyllo pob gwasanaeth sy'n gysylltiedig â llety

Mae pobl sy'n gadael gofal ac sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl iddynt adael gofal wedi eu cofnodi yn 36.36% yn erbyn targed o 50%, mae'r nifer yn gwella ar 24 mis i 49%. Mae hyn wedi bod yn duedd mewn blynyddoedd blaenorol ond gwneir gwaith penodol yn ystod 2019/20 i wella dewisiadau ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gyfres newydd o fesurau a gaiff eu gweithredu fesul cam o 2020.

Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Oedolion

Gwybodaeth, cyngor a chymorth - y Tîm Cyswllt Cyntaf yw lle y gall tîm amlddisgyblaethol gyfeirio pobl gan gynnwys diogelu, therapyddion galwedigaethol a chynghor tai, nam ar y synhwyrâu, taliadau uniongyrchol a chynghor ariannol.

Mae 79% o'r oedolion a dderbyniodd gyngor a chymorth gan y tîm cyswllt cyntaf nad ydyn nhw wedi gwneud ymholiad pellach o fewn 6 mis – sy'n nodi eu bod yn darparu cymorth priodol ar y pwynt cynharaf.

Cofnododd yr arolwg i ddinasyddion fod 66% o oedolion wedi derbyn y cyngor a'r wybodaeth gywir pan oedd angen

Mae Gartref Gyntaf yn enghraifft o fenter ranbarthol rhaglen drawsnewid Llywodraeth Cymru sydd wedi ymestyn y cynnig o GCC i leoliad ysbyty gan fod y tîm yn cynnig cymorth i bobl ar wardiau cyn derbyn gyda'r bwriad o'u hatal rhag cael eu derbyn. Dechreuodd y fenter ym mis Tachwedd 2018 a'r arwyddion yw ei bod yn dod yn rhan annatod o ddiwylliant ysbytai a'i bod bellach yn bartner allweddol yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.

Yr adroddiad oedd gwerthusiad y Cyfarwyddwr o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018/19. Roedd yn cydymffurfio o ran fformat a chynnwys â'r gofynion statudol ar gyfer adroddiad y Cyfarwyddwr.

Sylwadau gan Gynghorwyr:

- Nododd y Cynghorydd Truman fod yr adroddiad yn dangos gwaith da iawn ar sail tystiolaeth, ei fod yn cydblethu â'r amcanion lles a diolchodd i'r holl swyddogion, gofalwyr, teuluoedd a gwirfoddolwyr, a oedd yn aml wedi wynebu cyfnod anodd ac y dylid cymeradwyo hyn ac yn arbennig y gwirfoddolwyr oedd yr arwy tawel.
- Cytunodd y Cynghorydd Giles yn llwyr â'r Cynghorydd Truman a diolchodd i bawb a gymerodd ran am eu gwaith rhagorol. Roedd angen canolbwyntio ar y gwasanaeth gofalwyr ifanc a'r effaith ganlyniadol ar eu bywyd cartref a'u gwaith ysgol. Roedd y gefnogaeth i ofalwyr ifanc yn wych, gyda darparu diwrnodau i fwrdd a grwpiau cymorth gyda chyfle i blant gyfarfod mewn amgylchiadau tebyg.
- Adleisiodd y Cynghorydd Jeavons sylwadau ei gydweithwyr a chyfeiriodd at y gostyngiad mewn dedfrydau carchar; pedwar yn unig am y cyfnod, sef yr isaf a gofnodwyd yng Nghasnewydd. Gofynnodd y Cynghorydd Jeavons am i hyn gael ei godi mewn ysgolion cynradd yng Nghasnewydd.
- Tynnodd y Cynghorydd Guy sylw at y ffaith bod hwn yn wasanaeth pwysig a oedd yn cwmpasu pob oedran a chefnidir, ac os collir y gwasanaeth hwn, byddai'n cael canlyniadau difrifol.
- Soniodd y Cynghorydd M Evans fod y grŵp Ceidwadol wedi croesawu'r adroddiad er nad oedd yn hollol gadarnhaol. Roedd ffigurau digartrefedd, gyda 10% o bobl ifanc yn gadael gofal, wedi dyblu o 12.5% i 22%. Roedd gobaith mawr bod gwelliannau sylweddol wedi eu gweithredu ers i'r adroddiad 18/19 gael ei gyhoeddi. Yn ail, cyfeiriodd yr adroddiad at y gwaith rhagorol yr oedd Barnardos wedi'i wneud i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a'r gobaith oedd na fyddai'r toriadau yn y gyllideb yn effeithio ar y gwasanaeth hwn. Yn olaf, codwyd pryderon yn y Pwyllgor Rheoli Craffu ym mis Tachwedd mewn perthynas â'r

mesurau perfformiad sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Roedd y dehongliad yn anghyson ac nid oedd y fethodoleg a gofnodwyd ar draws Cymru yn gadarn; megis gofal deintyddol i blant a oedd yn isel o ran canran. Croesawodd felly y Cyngorydd Evans y ffaith bod yr Aelod Cabinet wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofynnodd iddo ysgrifennu eto ynghylch y materion hyn.

- Tynnodd y Cyngorydd D Williams sylw at sylwadau cadarnhaol gan blant ifanc a gyflwynwyd yn yr adroddiad am eu profiad gyda Chasnewydd, er gwaethaf y materion a godwyd gan ei gydweithiwr.
- Gwahoddodd y Dirprwy Faer yr Aelod Cabinet i ymateb. Roedd y Cyngorydd Cockeram wedi codi pryderon gyda'r Gweinidog, fel y crybwyllodd y Cyngorydd Evans, a byddai'n ystyried y sylwadau ynghylch Barnardo's. Roedd ymgynghoriad wrthi'n cael ei gynnal ar y mater ar hyn o bryd. Roedd digartrefedd yn broblem ac mae'n rhaid i Gasnewydd wneud mwy a darparu cymorth yn ôl yr angen.

Penderfynwyd:

i'r Cyngor gytuno'n unfrydol i dderbyn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, 2018/19.

9. Amserlen Gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2020/2021

Roedd yr amserlen arfaethedig o gyfarfodydd yn ymgais i strwythuro'r dyddiadur gyda chyfres o gyfarfodydd i hwyluso'r broses benderfynu drwy'r Pwyllgorau Cyngor, Gweithredol a Rheoliadol. Roedd amserlen y cyfarfodydd hefyd yn gosod patrwm o gyfarfodydd ar gyfer pwyllgorau craffu a chyrrff eraill.

Byddai'r amserlen yn parhau'n ganllaw ac yn destun newid a diwygio er mwyn diwallu anghenion rhaglenni gwaith pob Pwyllgor neu grŵp arall.

Penderfynwyd:

i'r Cyngor fabwysiadu'r amserlen o gyfarfodydd yn unfrydol ar gyfer trefniadau Mai 2020 i Mai 2021, gan gydnabod ei bod yn agored i newid a diwygio er mwyn diwallu anghenion rhaglenni gwaith pob Pwyllgor neu grŵp arall.

10. Enwebiad Maerol ar gyfer 2020/2021

Cyhoeddodd yr Arweinydd mai'r enwebiad i faer Casnewydd yn ystod 2020/21 fyddai'r Cyngorydd D Williams a chynhigiodd ei llongyfarchion gan obeithio y byddai'r Cyngorydd Williams yn mwynhau ei flwyddyn.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cyngorydd M Evans.

Datganwyd diddordeb gan y Cyngorydd D Williams.

Penderfynwyd:

Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol y dylid penodi'r Cyngorydd D Williams i wasanaethu fel Maer Casnewydd ar gyfer 2020/21.

11. Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor

Rhoddodd yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol, cyn bwrw ymlaen â chwestiynau:

Roedd yr Arweinydd wedi sôn ei bod hi'n ffrainc i fynychu'r drydedd gwobrau addysg ysgolion y South Wales Argus yn ddiweddar a'i bod am dynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud mewn ysgolion a cholegau ar draws Casnewydd. Roedd Cymru yn y cyfnod o drawsnewid mwyaf sylweddol ers dros 40 o flynyddoedd ac roedd lles disgyblion yn hanfodol

i bopeth a wnawn. Mae ein hysgolion yn darparu amgylchedd diogel a meithringar, gyda chlybiau brecwast ac ar ôl ysgol yn cynnig lluo o wasanaethau fel y gall plant fwynhau pob agwedd ar fywyd yr ysgol i sicrhau eu bod yn ffynnu yn hytrach na goroesi.

Roedd yr Arweinydd yn falch iawn o dderbyn ymwelwyr ysgol yn y Ganolfan Ddinesig o bob cwr o Gasnewydd, ynghyd â'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau ac uwch swyddogion, i nodi Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru ar gyfer cynllun ysgolion iach. Yr ysgolion sy'n derbyn y wobwr hon oedd Glasllwch, Gaer, Mount Pleasant, St Andrews, Maendy, Eveswell, Clytha, Langstone, Llys Malpas, Ysgol Gynradd Llyswry, Ysgol Gymraeg Casnewydd a Meithrinfa Fairoak, y dylid eu llongyfarch i gyd. Cyflawnwyd saith thema er mwyn ennill y wobwr hon, gan gynnwys bwyd a ffitrwydd, datblygiad emosiynol a lles. Yr hyn a oedd yn sefyll allan oedd hyd yr amser i ysgol gael y wobwr hon a'r achrediad hwn; gallai gymryd hyd at naw mlynedd, ymrwymiad enfawr i ysgolion a dylem i gyd fod yn falch iawn.

Aeth yr Arweinydd hefyd i wasanaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020 yn y Gadeirlan, gwasanaeth gwefreiddiol dan arweiniad y disgyblion. Diolchodd yr Arweinydd, yn arbennig, i Ysgol Gyfun Caerllion a ganodd, Gwasanaeth Cerdd Gwent ac Ysgol Gynradd Langstone am orymdaith canhwylau yn ogystal â'r athrawon am gyflwyno gwerthoedd i ddisgyblion i'w bywydau fel oedolion.

Roedd yr Arweinydd wedi sôn mai un o'i phrif bynciau ar gyfer Casnewydd oedd datblygu cynaliadwy; cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Byddai 17 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ychwanegol yng Nghasnewydd yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb, a oedd yn newyddion ardderchog. Byddent ar gael i breswylwyr ac ymwelwyr.

Llongyfarchodd yr Arweinydd hefyd Gasnewydd Nawr a oedd yn rhan o'r Ardal Gwella Busnes am adnewyddu eu cais yn llwyddiannus am y pum mlynedd nesaf ac roedd yn edrych ymlaen at y nod ar y cyd i helpu busnesau i ffynnu yn y gymuned. Cyfarfu'r arweinydd a'r Prif Weithredwr â nhw yn ddiweddar i drafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Parhaodd y Rhaglen Adfywio i symud ymlaen yn gyflym gyda datblygiad Tŵr y Siartwyr. Roedd y buddsoddiad o £1.3 miliwn a gafodd ei reoli gan Gasnewydd Nawr yn hanfodol i lwyddiant canol y ddinas dros y pum mlynedd nesaf.

Yn olaf, rhoddodd yr arweinydd wybod i'w chydweithwyr am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd ganddi'n ddiweddar, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Uwchgynhadledd G10, Dinas-ranbarth Caerdydd a Porth y Gorllewin, partneriaethau pwysig o ran y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithio wrth symud ymlaen. Tynnodd yr Arweinydd sylw at waith a drafodwyd yn yr Uwchgynhadledd G10 a'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a oedd yn ymwneud â'r gwaith yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud. Fel rhan o hyn, roedd hefyd adroddiad 'Creu Gwent Gwell' ac roedd seminar i bob aelod wedi'i drefnu ar gyfer 4 Mawrth, lle byddai Dr Sarah Aitken yn cyflwyno ei chanfyddiadau.

Cwestiynau i'r Arweinydd

Roedd y Cynghorydd M Evans wedi ymweld â Toulouse yn ddiweddar, a oedd yn ddinas fwy na Chasnewydd ac arsylwodd ei fod wedi dod ar draws un person digartref yn unig ac nad oedd unrhyw gardota. Yn anffodus, ni ellid dweud hyn am Gasnewydd. Roedd pobl ddigartref yn haeddu'r holl gymorth y gallent ei gael ac roedd y broblem wedi cyrraedd cyfrannau epidemig. Roedd nifer o sefydliadau a chymorth ar gael ond ni allai unrhyw un ddarparu llety priodol i'r bobl ddigartref hyn. Cysylltodd trigolion a busnesau â'r Cynghorydd Evans, gan bryderu am nodwyddau, carthion, sbwriel a'r bygythiadau a deimlwyd gan drigolion mewn perthynas â gardota ymosodol. Roedd angen gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â hyn yn derfynol, a oedd yr arweinydd yn cytuno â hyn?

Dywedodd yr Arweinydd fod Casnewydd wedi mabwysiadu strategaeth ddigartrefedd, yn cwmpasu rhanbarth Casnewydd a Gwent, a'i bod yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig cyngor a chymorth ac i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a sicrhau bod cyngor ar ddigartrefedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddarparu. Roedd angen ystyried y mater ar raddfa fawr, yn unol â'r strwythur cymdeithasol a'r gwahaniaethau diwylliannol i'r strwythur a'r dull cymdeithasol yn Ffrainc. Y dull oedd ystyried y strwythur cymdeithasol ar sail bersonol a chydabod yr heriau a godwyd. Cynhaliwyd bord gron gyda Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fis Tachwedd diwethaf i drafod sut i fynd i'r afael â'r mater fel dinas. Roedd Casnewydd hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam i geisio mynd i'r afael â'r broblem o gysgu ar y stryd er mwyn llunio cynllun gweithredu a dyraniad adnoddau i alluogi'r Cyngor i wneud hyn. Felly, roedd y Cyngor yn ymdrin â'r mater.

Atodol:

Dywedodd y Cyngorydd M Evans wrth yr arweinydd mai'r ateb creulon oedd bod pobl wedi blino ar esgusodion, ac er bod cofrestr risg ar waith, roedd canfyddiad y bobl o ddod i Gasnewydd yn hanfodol, yn enwedig gyda datblygiad Tŵr y Siartwyr. Roedd dau fusnes wedi gadael canol y ddinas yn ddiweddar oherwydd y mater hwn. Cyfeiriodd y Cyngorydd Evans hefyd at gyfarfod diwethaf y Cabinet lle trafodwyd eiddo gwag, roedd y ffigurau'n cyfateb i 18 eiddo y flwyddyn, roedd pryderon hefyd ynglŷn â hyn. Roedd angen gweithredu ar frys, felly beth oedd i'w wneud o ganlyniad?

Roedd yr Arweinydd wedi darparu ymateb ac roedd yr ateb i'r cwestiwn yn aros yr un peth, fodd bynnag, gellid rhoi rhagor o fanylion ysgrifenedig i'r Cyngorydd Evans.

Gofynnodd y Cyngorydd K Whitehead a oedd ymgynghorwyr rheoli wedi cael eu penodi i edrych ar doriadau yn y gyllideb ac os felly, a oedd hynny ar gost o £30 mil.

Nid oedd yr Arweinydd yn ymwybodol o hyn ond byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i'r Cyngorydd Whitehead gan y Prif Weithredwr.

Atodol:

Gofynnodd y Cyngorydd Whitehead, pe bai arian ychwanegol ar gael, a fyddai'n well gwario hyn ar sbwriel a glanhau tŵr y cloc.

Ailadroddodd yr arweinydd nad oedd yn ymwybodol bod hyn yn digwydd. Yn ychwanegol, roedd tŵr y cloc, yn adeilad rhestredig, a oedd angen glanhau arbenigol â llaw, ni fyddai hyn yn cael blaenoriaeth dros ddarparu gwasanaethau.

Cyfeiriodd y Cyngorydd C Townsend at y mater digartrefedd y soniwyd amdano'n gynharach o dan faterion yr heddlu a gofynnodd a oedd yr arweinydd yn fodlon bod yr heddlu'n symud y rhai sy'n cysgu ar y stryd.

Eglurodd yr arweinydd fod yr ardal yn cael ei glanhau, ar gais grwpiau cymorth i'r digartref, busnesau ac aelodau o'r cyhoedd oherwydd y pryderon i iechyd y cyhoedd. Roedd y gwersyll y cyfeiriwyd ato hefyd wedi cael tân yn ddiweddar. Pwysleisiodd yr Arweinydd nad oedd yn symud pobl ddigartref allan, ond yn glanhau'r ardal. Helpodd yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol i symud y rhai oedd yn cysgu ar y stryd, dim ond oherwydd bod risg o halogiad gan wrthrychau miniog. Diolchodd yr Arweinydd i'r gweithwyr am eu gwaith caled, gan eu bod yn wynebu heriau a risg i'w hiechyd. Ni chynhaliwyd unrhyw weithgareddau troi allan o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd a'r unig eitemau a dynnwyd oedd y rhai yr oedd yn amhosib eu trwsio.

Atodol:

Gofynnodd y Cyngorydd Townsend ble roedd y bobl ers y gwaith glanhau.

Dyweddodd yr Arweinydd fod y lleoliad dan sylw yn dal i fod yn wersyll a bod pobl ddigartref yn cael eu hasesu, gydag un person yn cael ei letya'n llwyddiannus. Nid oedd rhai pobl yn ymgysylltu â'r grŵp cymorth felly roedd yn anodd rhoi cyfrif manwl o ble roedd yr holl bobl oedd yn cysgu ar y stryd.

12. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau i Aelodau'r Cabinet ar yr achlysur hwn.

13. **Cwestiynau i Gadeiryddion Pwyllgorau**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau ar yr achlysur hwn.

14. **Pwyllgor Safonau Cofnodion**

Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019.

15. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Iau 27 Chwefror 2020 am 5pm yn Siambrau'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified